GV72
Trwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Nwyddau

Department for Transport

Trosglwyddo Canolfannau Gweithredu: SCH.4

Ffurflen Gais Atodol

LLENWCH Y DDWY ADRAN YN LLAWN MEWN LLYTHRENNAU BRAS

Nodiadau

1. Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon os gwelwch yn dda. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch Swyddfa Ardal Drafnidiaeth leol.
2 Mae Atodlen 4 Deddf (Trwyddedu Gweithredwyr) Cerbydau Nwyddau 1995 yn darparu trefn wedi'i symleiddio ar gyfer trosglwyddo canolfan(nau) gweithredu o drwydded un gweithredwr i drwydded gweithredwr arall neu ddarpar weithredwr.
3 Gellir ei defnyddio wrth wneud cais am y drwydded neu wrth wneud cais i newid trwydded bresennol.
4 Pan ddefnyddir y drefn hon nid oes angen hysby seb mewn cysylltiad â chais o'r fath. Ni chodir ffi mewn cysylltiad ag Atodlen 4, cais i newid, ond rhaid talu'r ffioedd llawn pan ddefnyddir Atodlen 4 mewn cysylltiad â chais am drwydded.
5. Rhaid bod y ganolfan neu'r canolfannau gweithredu a drosglwyddir wedi'i nodi ar drwydded (ond nid mwy nag un) ar y dyddiad y gwneir y cais, a rhaid ei bod wedi'i dileu oddi ar y drwydded honno erbyn i'r cais gael ei bennu.
6. Bydd unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r ganol fan/canolfannau gweithredu dan sylw yn cael eu trosglwyddo gyda hi, a rhaid i'r gweithredwr newydd gyflawni unrhyw ymgymeriadau. Fodd bynnag, ni ellir newid amodau nac ymgymeriadau ar yr adeg hon o'r trosglwyddiad.
7. Defnyddir trefn drosglwyddo Atodlen 4 yn ôl dis gresiwn y Comisiynydd Traffig.
8. Dylid llenwi'r ffurflen hon yn llawn a'i chyflwyno gyda ffurflen GV79 (os gwneir cais am drwydded newydd) neu ffurflen GV81 (os gwneir cais i newid trwydded) wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd.
9. Rhaid i Adran A y ffurflen hon gael ei llenwi gan yr ymgeisydd a rhaid i Adran B gael ei llenwi gan y sawl sy'n ildio'r ganolfan weithredu.

☑ y blychau

Adran A

1. Oes gennych chi drwydded gweithredwr cerbydau nwyddau ar hyn o bryd yn yr Ardal Drafnidiaeth hon?

Oes ❑ Nac oes ❑

2. Os **oes**, nodwch rif eich trwydded gweithredwr

3. Rhowch fanylion y ganolfan neu'r canolfannau gweithredu sy'n berthnasol i'r cais hwn. Gallwch barhau ar ddalen arall os oes angen.

Sir	Cod Post

Sir	Cod Post

Yr wyf yn datgan bod y datganiadau yn y cais hwn yn wir. Rwy'n deall ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug.

Llofnod*

Dyddiad

*i'w lofnodi gan yr un unigolyn sy'n llofnodi GV79 neu GV81.

Adran B

I'w llenwi gan y sawl sy'n ildio'r ganolfan weithredu

4. Enw

5. Enw Masnachol (os oes un)

6. Rhif y Drwydded

7. Cyfeiriad ar gyfer anfon gohebiaeth

Sir	Cod Post

8. Ydy'r ganolfan neu'r canolfannau gweithredu a nodir yng nghwestiwn 3 Adran A dros y dudalen ar eich trwydded ar hyn o bryd? ❑ Ydy ❑ Nac ydy
9. Ydy'r ganolfan neu'r canolfannau gweithredu yn cael ei defnyddio fel canolfan weithredu gan unrhyw un arall sy'n dal trwydded gweithredwr cerbydau nwyddau? ❑ Ydy ❑ Nac ydy
10. Os ateboch ydy i gwestiwn 9 rhowch fanylion y deiliad arall. Gallwch barhau ar ddalen arall os oes angen

Enw

Enw Masnachol (os oes un)

Rhif Trwydded (os yw'n hysbys)

11. Ticiwch fel sy'n briodol:

(a) Gofynnaf drwy hyn am ddileu'r ganolfan neu'r canolfannau gweithredu a nodir yng nghwestiwn 3 Adran A oddi ar fy nhrwydded; neu ❑

(b) Yr wyf drwy hyn yn ildio fy nhrwydded. ❑

Yr wyf yn datgan bod y datganiadau yn y cais hwn yn wir. Rwy'n deall ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug.

Llofnod | Dyddiad

Enw mewn LLYTHRENNAU BRAS

Swydd yn y busnes: (gweler nodiadau a-c isod)

Perchennog	❑	Partner	❑
Ysgrifennydd y Cwmni	❑	Swyddog Dirprwyedig Awdurdod Cyhoeddus	❑
Cyfarwyddwr	❑	Rheolwr Trafnidiaeth	❑

Nodiadau

a. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan unigolyn rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan yr unigolyn hwnnw.
b. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan bartneriaeth gall y partneriaid i gyd lofnodi'r cais neu gall un partner ei lofnodi gydag awdurdod y lleill.
c. Os yw'r drwydded yn cael ei dal gan unrhyw grwp o bobl neu gorff arall gall un neu ragor o'r unigolion a awdurdodwyd at y diben gan y corff neu'r grwp lofnodi'r cais, a gallai hwnnw fod yn Rheolwr Trafnidiaeth. Gyda'r olaf, rhaid cael datganiad yn cadarnhau'r awdurdod i lofnodi gyda'r cais.

Rhestr wirio

Cyn i chi anfon eich cais gwnewch yn siwr:

- Bod y ffurflen hon yn gyflawn;
- Eich bod wedi atodi ffurflen GV79 neu GV81 gyflawn (gweler paragraff 8 yn y nodiadau);
- Gyda chais GV79, eich bod wedi atodi'r ffi brosesu ofynnol.